

www.cyngorllanelltyd.cymru

**Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanelltyd, Taicynhaeaf a Bontddu a gynhaliwyd yn
Neuadd Bentref Llanelltyd
Nos Fawrth, Hydref 8, 2019 am 7.30 o'r gloch.**

Presennol: Cynghorwyr: Simon Evans (Cadeirydd), John Hughes, Gethin Williams
Geraint Rowlands, Llinos Williams, Elfed ap Gomer. Hefyd a Henry M. Edwards.

1. Ymddiheuriadau:

Nid oedd ymddiheuriadau.

2. Datgan diddordeb:

Doedd neb yn datgan diddordeb.

3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Medi 10, 2019

Cynigwyd ac eilwyd fod y cofnodion yn gywir.

4. Materion yn codi o'r cofnodion Medi 10, 2019

Eitem 4. Eitem 9.a. Llythyr (10/6/2019) oddi wrth Rheolwr Stadau, Cyngor Gwynedd
gyda gwybodaeth gofynwyd at ddyfodol Toiledau Cyhoeddus Bontddu. Mae'r
wybodaeth yn cynnwys adroddiad ar gyflwr y toiledau a'r brydles.

Penderfynwyd trafod dyfodol y Toiledau yn cyfarfod mis Hydref.

Gyda chymorth Mr Gethin Corps, cyn gofalwr y Toiledau, cafwyd hyd i'r
tap i gau cyflenwad dŵr i'r adeilad (16/9/2019). Ar 19/9/2019 cafwyd Swyddog o Dŵr
Cymru i sicco y rhif meter ac roedd dŵr yn gollwng ond ddim yn gwybod yn lle. Roedd
llawr y toiledau yn damp. Diffoddwyd y dŵr i'r adeilad.

Penderfynwyd gwneud ymoliadau â Llywodraeth Cymru i gael gwybod os mae
arian ar gael i wneud gwaith ar Toiledau Cyhoeddus.

Eitem 5a. Cafodd adroddiad ariannol y Clerc ei newid gan yr Archwilydd Mewnol.
Cafodd Costau'r Clerc ei symud o Staff i Gweinyddu a chafodd Costau Cynrychioli
(costau teithio Elfed ap Gomer i Gynhadledd Un Llais Cymru) ei symud i Staff. Roedd
cywirdeb wedi ei wneud i'r taliad anghywir i G.W. Jones (£62.80 yn lle £62.40). Roedd
materion hyn wedi cael ei roi yn glir i BDO gan yr Archwilydd Mewnol.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU
COFNODION HYDREF 8, 2019

Eitem 9.a. Cafwyd adroddiad ar y Cynhadledd gan Elfed ap Gomer. Dyma ddau bwynt cafodd ei drafod: mae angen i gynghorwyr a'r clerc mynychu cyrsiau a bydd gwefan 'Deall Lleuedd yng Nghymru' ar gael cyn bo hir.

Cafodd Elfed ei longyfarch ar gael ei benodi yn Ddirprwy Cadeirydd Un Llais Cymru.

Ynglŷn â'r angen i gynghorwyr a'r clerc mynychu cyrsiau, mae gan Un Llais Cymru saith modiwl dysgu ar eu gwefan i'w defnyddio Y saith modiwl yw: Cod Ymddygiad, Y Cyngor yn Gyflogydd, Amrywiaeth a Chynhwysiant, Iechyd a Diogelwch, Sesiwn Gynefino, Cyllid Llywodraeth Leol, Deall y Gyfraith. Maent ar gael ar http://www.unllaiscymru.org.uk/OVWWeb-CYM/hyfforddiant_ar-lein_sylfaenol-16740.aspx (Gweler Cofnodion Mehefin 11, 2019, eitem 9.d.).

Eitem 4. Eitem 11.b. Gwnaethpwyd ymoliadau (11/9/2019) ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri os roedd ganddynt sylw ei wneud ar dorri'r coed. Derbyniwyd ateb ganddynt (19/9/2019) yn rhoi gwybod nid oes gwrthwynebiad i glirio'r rhododendron ond angen gwybod os rydym am dorri'r goeden dderw sy'n tyfu yn ganol y rhododendron. Gofynwyd i Carwyn Evans cysylltu gyda'r swyddog i dddangos pa waith bydd yn cael ei wneud. Maent yn cynig ariannu'r gwaith.

Llythyr (6/10/2019) oddi wrth Gwasanaethau Tir a Choed eisiau gwybod y canlyniad i'w tendr i wneud y gwaith.

Gweler Eitem 8.a. am ein penderfyniad. Gyda diddordeb y Parc i wneud y gwaith Penderfynwyd rhoi gwybod i Gwasanaethau Tir a Choed does dim sicrwydd pwy fydd yn gyfrifol am wneud y gwaith.

5. Materion Ariannol

a. Bil (27/09/2019) am £206.08 oddi wrth Swyddfa Archwiliad Cymru. Mae'r taliad am Archwiliad o Gyfrifon 2018/19 y Cyngor gwnaethpwyd gan BDO. (Llynedd roedd y bil am £426.90).

Penderfynwyd talu'r bil.

b. Llythyr (Medi 2019) oddi wrth Treialon Cŵn Defaid Cenedlaethol Cymru 2020. Maent angen cymorth ariannol tuag at y treial bydd yn cael ei gynnal yng Nghaerberllan, Abergynolwyn rhwng 31 Gorffennaf ac Awst 2, 2020.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror 'Cais am Nawdd'.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU
COFNODION HYDREF 8, 2019

c. Llythyr (30/9/2019) oddi wrth Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, Llywodraeth Cymru. Amgáu mae ffurflen i'w gwblhau i roi taliadau a wneir i'r aelodau, taliadau fel defnyddio ffôn, costau teithio. Mae angen y wybodaeth cael ei gyhoeddi a'i ddangos i'r cyhoedd cyn Medi 30. Mae'r Panel angen y wybodaeth hefyd.

Penderfynwyd anfon y ffurflen am y flwyddyn 2018 – 2019. Dim ond i Elfed ap Gomer oedd taliadau wedi ei wneud.

ch. Bil (7/10/2019) am £47.70 oddi wrth Elfed ap Gomer am gynrychioli'r Cyngor yng Nghynhadledd Flynyddol Un Llais Cymru 2019.

Penderfynwyd talu'r bil.

d. Balans yn y banc ar 29 Medi, 2019: £11,277.86.

7. Mynwent Llanelltyd

Nid oedd adroddiad.

8. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Llythyr (30/9/2019) oddi wrth Prosiect Coedwigoedd Glaw. Mae'n rhoi gwybod bod y prosiect yn weithgar yn ein hardal. Byddai'r swyddogion y prosiect yn falch cael bod yn bresenoldeb yn un o'n cyfarfodydd er mwyn ceisio lledaenu'r gair am amcanion a thargedau'r prosiect, a'r ffordd orau i ymgysylltu gyda thrigolion a thir berchnogion yr ardal. Maent hefyd angen sylw at y bwriad o osod byrddau dehongli yn y coedwigoedd.

Penderfynwyd rhoi gwahoddiad iddynt i'n cyfarfod mis Tachwedd. Gyda'r diddordeb sydd gan y Parc i wneud y gwaith o glirio rhododendron yn Bontddu penderfynwyd hefyd cael eu sylwadau ar y mater.

9. Gohebiaeth

a. Llythyr (19/9/2019) oddi wrth Mabon ap Gwynfor, Ymgeisydd Plaid Cymru, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Dwyfor Meirionnydd. Llythyr i'w gyflwyno i'r Cynghorwyr y Cyngor. Mae angen cefnogaeth i gael Canolfan Ddiagnosis Canser yng Ngwynedd. Os cefnogi'r apêl mae angen llythyr/ebost, a hefyd cael pobl i lofnodi'r llythyr.

Penderfynwyd cefnogi'r apêl ac ei gefnogi trwy cyfeiriad:

https://www.dwyformeirionnydd.cymru/deiagnosis_canser

b. Llythyr (24/9/2019) oddi wrth Cartrefi Cymunedol Gwynedd Cyf yn rhoi gwybod mae 10 Swn Y Nant, Bontddu ar osod. Amgáu mae poster gyda manylion.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU
COFNODION HYDREF 8, 2019

c. Llythyr (7/10/2019) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am eu cyfarfod Pwyllgor Ardal Meirionnydd bydd yn cael ei gynnal yn Llyfrgell Rydd, Dolgellau ar ddydd Mercher, Hydref 16, 2019 am 7.00yh. Bydd cyflwyniad yn cael ei roi gan Swyddog o Parc Cenedlaethol Eryri. Amgáu mae Agenda, Cofnodion Pwyllgor Ardal Meirionnydd cynhalwyd ar Fai 22, 2019, Cofnodion Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol ar Mehefin 7, 2019.

10. Adroddiad Cyng. Peredur Jenkins

Nid oedd adroddiad.

11. Materion Brys

a. Daeth i sylw'r Cyngor gan Geraint Rowlands bod llwythi o garpedi wedi cael eu rhoi ar dir Mr Hett, Hengwrt. Mae'r tomen carpedi yn y golwg o'r ffordd A470.

Penderfynwyd rhoi gwybod i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a Cyfoeth Naturiol Cymru, Dolgellau i roi sylw i'r mater.

b. Penderfynwyd rhoi gwybod i Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd mae angen sgubo ffordd a glanhau cwteri yn Taicynhaeaf.
